# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Medi 2023

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, C Townsend, B Davies, P Drewett, D Jenkins, M Al-Nuaimi, R Howells and D Mayer

Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Sarah Davies (Deputy Chief Education Officer), Sarah Morgan (Chief Education Officer), Emily Mayger and Simon Richards

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr P Bright

---

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd P. Bright

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth atodol gan y Swyddogion ynghylch yr ymateb a roddwyd ar y Gwasanaeth Ieuenctid, gan nodi faint o amser sy'n cael ei dreulio'n gweithio wyneb yn wyneb o'i gymharu â gwaith gweinyddol.
Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **25 Gorffennaf 2023 yn gofnod gwir a chywir**.

4 **Adroddiad Deilliannau Arolygon Estyn 2022-23**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar yr adroddiad. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg drosolwg o'r adroddiad.

- Nododd y Pwyllgor y thema ynghylch yr angen am welliannau Cymraeg ail iaith ar draws argymhellion yr adroddiad a theimlai ei bod yn bwysig i blant feddu ar fwy o Gymraeg. Gofynnodd y Pwyllgor pa ystyriaeth a oedd wedi'i rhoi i'r gwelliannau oedd eu hangen. Sicrhaodd y Prif Swyddog Addysg y Pwyllgor fod cefnogaeth ar gyfer ysgolion i fynd i'r afael â'r argymhellion. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at y Cynllun

Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd a oedd yn gysylltiedig â gwella Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac a ddarparai becynnau cymorth i ysgolion. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at y cyfleoedd i athrawon fynychu ystod o gyrsiau i wella sgiliau Cymraeg. Nodon nhw fod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn gallu mynd i ysgolion a gweithio gydag athrawon i wella cynlluniau gwersi a'u cyflwyno nhw. Tynnodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg sylw at y ffaith mai dyma'r arolygiadau cyntaf ers Covid, a bod y pandemig wedi effeithio ar ddatblygiad y Gymraeg. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd rhan yn Cymraeg Campus.

- Nododd y Pwyllgor y gwelliant mewn Safonau Cymraeg ond gofynwyd a allai Cyngor Dinas Casnewydd wneud mwy i sicrhau gwelliannau. Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg sicrwydd i'r Pwyllgor ei fod yn hyderus ynghylch y cyfleoedd am gefnogaeth ar gyfer sgiliau Cymraeg. Nododd fod gwella sgiliau Cymraeg yn thema genedlaethol mewn ardaloedd tebyg. Sicrhaodd y Prif Swyddog Addysg y Pwyllgor y byddent yn parhau i fonitro lefelau ymgysylltu.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr argymhelliad ynghylch bwyta'n iach wedi'i adnabod cyn yr arolygiad ac os felly, beth oedd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag ef ac a oedd ysgolion tebyg yn cael eu hystyried o ran arfer gorau i gefnogi Ysgol Gynradd Pilgwenlli. Sicrhaodd y Prif Swyddog Addysg y Pwyllgor fod cynllun datblygu wedi'i greu a'i gymeradwyo, gyda'r ysgol yn cael ei monitro bob hanner tymor. Fe ddwedon nhw wrth y Pwyllgor y byddai ymweliad â'r ysgol i adolygu prosesau monitro/gwerthuso a rhoi cymorth a chyngor pellach. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor y byddent yn gallu rhoi diweddariadau i ddangos cynnydd. Dwedodd y Pwyllgor y byddent fel arfer yn cyfarfod ag ysgolion i drafod blaenoriaethau a chynlluniau datblygu a sicrhau polisïau monitro cadarn ond nad oedd yn gallu gwneud hyn gydag ysgolion cynradd ar hyn o bryd oherwydd gweithredu sy'n brin o streic. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor y byddai'r GCA yn ymweld ac yn adolygu'r un dystiolaeth â'r awdurdod i weld a yw'r un casgliadau yn gyffredin, a bod y GCA wedi ymweld â'r ysgol ac nad oedd wedi canfod unrhyw broblem o ran yr agwedd bwyta'n iach. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor, nawr bod yr ysgol bellach yn cael ei hadolygu, y gallent ymweld â'r ysgol a'i monitro er mwyn dangos hyder i Estyn. Fe ddwedoon nhw wrth y Pwyllgor, os oedd pryder am ysgol, y gall y Prif Swyddog Addysg ymyrryd yn gyfreithiol.

- Roedd y Pwyllgor yn falch o ganlyniadau'r arolygiad gan longyfarch yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yn hawdd cymharu canlyniadau Casnewydd ag awdurdodau lleol tebyg ac â chanlyniadau cenedlaethol. Teimlai'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg ei bod yn anodd cymharu gan fod yn rhaid iddynt fod yn ofalus wrth ddatgan ffigurau gan mai'r ffocws newydd oedd arfer arloesol a diddorol. Gwnaethon nhw dynnu sylw at y ffaith nad oedd data ganddynt i'w gymharu fel a oedd ar gael o'r blaen. Teimlent ei bod yn bwysig edrych ar arweinyddiaeth gan ei bod yn rhan annatod o ysgolion cryf. Tynnodd y Prif Swyddog Addysg sylw at y stigma sydd angen ei chwalu ynghylch ysgolion a oedd wedi bod yn destun mesurau arbennig a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor y gall Estyn adolygu argymhellion ar wahân. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at y ffaith bod Estyn wedi cymryd agwedd fwy cefnogol i alluogi gwelliant a chroesawodd hyn.

- Llongyfarchodd y Pwyllgor ysgolion am eu perfformiad a thynnu sylw at y tair ysgol a gafodd eu tynnu allan o fesurau arbennig.

- Gofynnodd y Pwyllgor pa gynnydd a wnaed ar bresenoldeb mewn ysgolion a phlant nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a pha gymorth oedd ar gael i les ac iechyd meddwl disgyblion a staff. Nododd y Prif Swyddog Addysg y canlyniad cryf i blant nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan dynnu sylw at Flwyddyn 11. Cytunodd nad oedd y ffigurau hyn bob amser wedi bod mor gryf ond iddynt fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ers amser sylweddol. fe dynnon nhw sylw at y Prosiect Aspire yn ysgolion Llyswyry a John Frost, yr Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), y Cydlynydd Llesiant a'u gwaith partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (BIAB), a'r Swyddog Ymgysylltiad a Dilyniant Ieuenctid. Esboniodd nad oedd yna ymgysylltu â nifer fach o bobl ifanc er mwyn diogelu eu hiechyd meddwl a'u lles. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod Casnewydd yn y chweched safle yng Nghymru ar gyfer ffigurau plant nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a'r safle uchaf yn ne-ddwyrain Cymru. Gwnaethon nhw dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i ysgolion ynghylch gwahaniaethu ac esbonio fod presenoldeb yn ddangosydd pwysig o les. Gwnaethon nhw roi gwybod i'r Pwyllgor nad oedd presenoldeb yn cael ei adrodd yn genedlaethol fel dangosydd perfformiad allweddol na'i gyhoeddi'n genedlaethol. Gwnaethon nhw nodi tuedd am i lawr o ran presenoldeb disgyblion ar ôl y pandemig ar y lefel genedlaethol.

- Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r cynnydd mewn gwyliau yn ystod y tymor wedi cael effaith ar bresenoldeb yng Nghasnewydd. Cytunodd y Prif Swyddog Addysg fod gwyliau yn ystod y tymor yn fwy cyffredin, ond dwedodd wrth y Pwyllgor fod Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau) wedi'u hailgyflwyno. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor mai dim ond pan oedd digon o dystiolaeth a bod rhesymau dros absenoldeb wedi'u harchwilio a chymorth wedi'i gynnig i deuluoedd y byddai HCBau yn cael eu rhoi. Rhoesant wybod i'r Pwyllgor am y cynnydd mewn addysg ddewisol yn y cartref. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor fod yna ymgysylltu â'r teuluoedd a'r cymunedau hyn, a bod Swyddogion Presenoldeb yn cefnogi gyda digwyddiadau. Rhoesant wybod i'r Pwyllgor fod data'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi i olrhain unrhyw dueddiadau a oedd yn tynnu sylw at broblemau sylfaenol.

- Cydnabu'r Pwyllgor yr anawsterau i bobl ifanc wrth ddychwelyd i addysg ar ôl y pandemig a theimlent fod angen i fwy o rieni ymgysylltu â'r gwasanaethau sydd ar gael. Esboniodd y Prif Swyddog Addysg nad oedd pob disgybl yn addas ar gyfer profiad ystafell ddosbarth "normal". Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o wybodaeth am y gwaith a wnaed o ran gwaith allgymorth gyda disgyblion a'u teuluoedd.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y data ar gyfer plant nad oeddent mewn addysg na'r system ysgolion ar gael a gofyn a fyddai newid deddfwriaethol yn annog ymgysylltiad rhieni. Tynnodd y Prif Swyddog Addysg sylw at y ffaith bod hawl gan riant i ddewis addysgu ei blentyn gartref a dwedodd na allai wneud sylw ar newid yn y gyfraith. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor yr ymgysylltir â rhieni i sicrhau eu dealltwriaeth o'r hyn yr oedd addysgu gartref yn ei olygu, ac i sicrhau nad oedd unrhyw broblemau sylfaenol a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad y gallai'r tîm Addysg roi cymorth i'w datrys. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at y ffaith mai'r pryder ar gyfer yr awdurdod lleol oedd dysgu a diogelu.

Gofynnodd y Pwyllgor pa fonitro a gwerthuso a gwblhawyd ynghylch addysg ddewisol yn y cartref. Dwedodd y Prif Swyddog Addysg wrth y Pwyllgor fod ymweliad blynyddol â phlant a gofrestrwyd, a'u bod yn cael eu monitro. Fe wnaethon nhw sicrhau'r Pwyllgor fod cwestiynau yn cael eu gofyn am yr hyn yr oedd plant yn ei ddysgu. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at y ffaith nad oedd cwricwlwm cenedlaethol penodol ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref a bod cymorth yn cael ei gynnig i hwyluso mannau arholiad pan oedd angen hynny ar deuluoedd sy'n addysgu gartref. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd unrhyw niwed i sgiliau cymdeithasol disgyblion oherwydd addysgu gartref. Dwedodd y Prif Swyddog Addysg na fyddent yn gwneud y rhagdybiaeth hon. Tynnodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg sylw at y ffaith bod rhwydweithiau wedi'u sefydlu gan deuluoedd ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref a'u teuluoedd a oedd yn cael eu cefnogi gan y tîm gyda chyfleoedd rhwydweithio fel sesiynau gweithdy. Nododd y Prif Swyddog Addysg fod ymchwil yn awgrymu bod teuluoedd sy'n dewis addysgu gartref yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu barnu, felly roedd yn bwysig ymgysylltu â nhw mewn ffordd gefnogol. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at ffaith bod y cymorth a roddir i blant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn gobeithio y byddai'n parhau.

## 5 Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau

- Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddogion a'r ysgolion am eu gwaith caled parhaus.
- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr adroddiad.
- Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd dilyniant a gwelliant yn Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn dilyn ei adroddiad arolygu.
- Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd y gwaith parhaus i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion a gofyn am fwy o wybodaeth am ba adnoddau sydd ar gael ac a ddefnyddir mewn ysgolion i hyrwyddo hyn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad gwybodaeth ar ba waith allgymorth sy'n cael ei wneud gyda disgyblion a theuluoedd sy'n cael trafferth dychwelyd i'r ysgol ar ôl Covid, y rhai sy'n cael trafferth gyda phresenoldeb a phlant nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

## 6 Adroddiad Cynghorydd Craffu

a) Camau Gweithredu sy'n Codi **(Atodiad 1)**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y ddalen ar gamau gweithredu.

b) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith **(Atodiad 2)**

Dwedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor na fu unrhyw newidiadau i'r Flaenraglen Waith.

c) Adroddiadau Gwybodaeth **(Atodiad 3)**

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu y bu un adroddiad gwybodaeth y mis hwn ynghylch Camfanteisio ar Blant. Dwedodd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd unrhyw gwestiynau wedi eu hanfon ymlaen ynglŷn â hyn, a bod y Cadeirydd wedi diolch ar ran y Pwyllgor i'r Swyddogion a chymeradwyo eu gwaith.

## 7 Live Event

[Cliciwch yma i wylio'r recordiad o'r cyfarfod.]

Daeth y cyfarfod I ben am 11.10 am